**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred CYSAG Gwynedd y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Gwynedd wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Gwynedd felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod CYSAG Gwynedd ar 13 Hydref 2010, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

**Manylion cyswllt:** (kenrobinson@gwynedd.gov.uk) 01286 679888

**Enw (Clerc CYSAG): Ken Robinson.**

**Cyfeiriad: Swyddfa Addysg Ardal Arfon, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.**

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol: Ysgol Bethel**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** |
|---|
| Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion. |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol |

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- Mae safonau Addysg grefyddol yn gyffredinol dda ar draws yr ysgol.
- Mae awyrgylch hapus iawn, yn seiliedig ar barch yn yr ysgol ac mae hyn yn cyfrannu at fwyniant y disgyblion yn yr ysgol. Trwy lunio eu rheolau ar gyfer sicrhau bod yr ysgol yn lle hapus a diogel i bawb, dengys y disgyblion ddealltwriaeth gadarn iawn o ddisgwyliadau cymdeithasol
- Amlyga'r disgyblion agweddau cadarnhaol iawn tuag at y pwnc; mae bron bob disgybl yn dangos lefel uchel o ddiddordeb yn y gweithgareddau. Maent yn ymroi i'w gwaith yn gydwybodol gan ddangos diddordeb bron ym mhob achos ac erbyn diwedd CA2 gallent weithio yn effeithiol iawn ar dasgau eithaf soffistigedig yn annibynnol *e.e. gweithgareddau TASC*
- Mae bron pob disgybl yn hynod o awyddus i gynorthwyo gyda digwyddiadau'r ysgol ar bob lefel ac yn mwynhau gwneud hynny, gan gyflawni eu tasgau yn gydwybodol ac effeithiol. Mae'r ysgol yn meithrin yr agwedd hon o'r cychwyn. Mae'r plant hynaf yn awyddus i feddwl am ffyrdd o godi arian ar gyfer yr ysgol neu elusennau ac yn trefnu gweithgareddau yn aml, *e.e. Plant Mewn Angen, Sport Relief, Comic Relief* ac maent bob amser yn awyddus i gael stondin i godi arian yn ystod ffeiriau'r ysgol.
- Mae'r plant i gyd yn meddu ar werthoedd cadarn iawn, megis parch, gofal a chonsyrn am eraill. Maent yn gyfeillgar â'i gilydd mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol ac mae eu gofal naturiol dros eu gilydd a thros disgyblion ag ADY yn ganmoladwy. Mae'r disgyblion yn cyd-dynnu'n dda iawn â'r athrawon ac aelodau eraill o'r staff. Mae ymwelwyr sydd yn ymweld â'r ysgol a dieithriaid a ddaw i gysylltiad â'r ysgol ar deithiau addysgol wastad yn nodi fod ymddygiad ac agweddau'r disgyblion yn eithriadol. Mae hyn oll yn creu awyrgylch gyfeillgar a chartrefol yn yr ysgol. Prin iawn yw'r achosion o ddisgyblion â phroblemau ymddygiad.
- Dengys llyfrau`r plant a`r portffolio Cyfnod Sylfaen a CA2 fod rhan fwyaf o`r disgyblion yn derbyn cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu o fewn y pwnc
- Dengys llyfrau`r plant fod sgiliau TGCh o fewn yn pwnc yn cael ei ddatblygu *(e.e. cyflwyniadau Power Point, gwaith prosesu geiriau ar Word/Publisher; defnydd o gamera fflip a chamera tynnu lluniau)*

**Cyfnod Sylfaen**

- Yn y Cyfnod Sylfaen mae pob disgybl yn derbyn cyfle i ymweld â mannau addoli a gallent siarad am yr hyn sy'n digwydd yno, *e.e. myfyrio, addoli, dathlu*.
- Drwy ymweliadau cyson â`r capel lleol mae bron pob un o blant yn y Cyfnod Sylfaen yn dangos brwdfrydedd naturiol yn eu gallu i siarad, gwybod am a holi am waith arweinwyr crefyddol lleol. Mae bron pob un yn cymryd rhan yn chwilfrydig mewn nifer o weithgareddau chwarae rôl *e.e. priodas a bedydd yn y capel*
- Mae pob un o blant yn y Cyfnod Sylfaen yn ymddiddori yn eu treftadaeth a'u traddodiadau eu hunain, eu teuluoedd, pobl eraill a rhyfeddodau'r byd ac yn sgil hyn mae bron pob un disgybl yn gwneud cynnydd da iawn yn eu datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol
- Mae rhan fwyaf o blant yn y Cyfnod Sylfaen yn adnabod y Beibl fel Llyfr Sanctaidd ac yn gwybod storïau am Iesu Grist. Dengys llyfrau`r plant a`r portffolio fod rhan fwyaf o blant yn y Cyfnod Sylfaen yn gwybod rhai straeon o grefyddau eraill y byd a'r arferion, dathliadau a defodau sy'n gysylltiedig â hwy, *e.e. Rama a Sita a'r Ŵyl Divali.*
- Mae`r rhan fwyaf o blant yn y Cyfnod Sylfaen yn gyfarwydd ag arferion a rheolau crefyddol a'u heffaith ar fywydau pobl ac yn dangos consyrn at eraill *e.e. gweithgareddau chwarae rôl*. Yn ogystal â hyn, mae bron pob un o blant yn y Cyfnod Sylfaen yn gallu mynegi eu teimladau a'u barnau eu hunain a gallent adnabod sut y gall eu gweithrediadau effeithio ar eraill
- Trwy weithgareddau ymarferol, mae`r rhan fwyaf o blant yn y Cyfnod Sylfaen yn gyfarwydd â storïau am y byd a dibyniad pobl arno a gwybod am y pwysigrwydd o ofalu amdan y byd

**Cyfnod Allweddol 2**

- Trwy ymweliadau ag addoldai mae llawer o blant yn CA2 yn adnabod prif nodweddion a gwrthrychau addoldai ac yn sgil hyn yn gallu sôn amdan y defnydd a wneir ohonynt
- Trwy astudio arteffactau crefyddol ac ymweld ag addoldai yn eu cymdogaeth, mae rhan fwyaf o blant CA2 yn gallu disgrifio ac egluro nodweddion addoldai a'u patrwm addoliad

- Mae`r portffolio pwnc yn dangos fod llawer o blant CA2 yn gallu disgrifio nodweddion dathliadau a defodau crefyddol a'r storïau crefyddol sy'n gysylltiedig â hwy a gallent ddeall eu cefndir a'u hystyr.
- Ceir cysylltiad agos ag arweinwyr crefyddol lleol, sydd yn galluogi'r mwyafrif o`r plant i wybod am eu gwaith. T
- Trwy gyfrwng straeon, gall y rhan fwyaf o`r plant adnabod rôl rhai o gymwynaswyr Crist
- Mae llawer iawn o blant CA2 yn gwybod am waith arweinydd crefyddol lleol, straeon o lyfrau sanctaidd a hanesion am fywyd Iesu a thrwy hyn gallent gydnabod pwysigrwydd crefydd ym mywydau pobl a datblygu goddefgarwch a pharch
- Mae`r rhan fwyaf o blant CA2 yn gwybod am brif reolau Cristnogaeth a'u heffaith ar fywyd Cristion bydd hyn yn helpu i feithrin agweddau cyfrifol mewn cymdeithas leol a byd-eang
- Drwy astudio gwahanol straeon am greu`r byd, gall llawer o blant CA2 ddatblygu eu sgiliau meddwl drwy gysylltu stori grefyddol â'r syniad o'r byd fel creadigaeth a'r dyletswydd i'w barchu *(e.e. drwy weithgaredd TASC yn cyflwyno syniadau am greadigaeth y byd)*
- Trwy weithgareddau dosbarth a chyflwyniadau mewn gwasanaethau dosbarth ac ysgol mae rhan fwyaf o`r plant yn gallu disgrifio sut mae credinwyr yn dangos consyrn am eraill a bod yn gyfarwydd â`r syniad o berthyn i deulu byd eang .
- Trwy amserlennu sesiynau Amser Cylch yn y dosbarthiadau, cynigir cyfleoedd ar gyfer myfyrio ar eu bywydau a'u credoau eu hunain a phobl eraill, eu hamgylchedd a'r cyflwr dynol.

**Materion i gael sylw**

**Cyfnod Sylfaen**

- Datblygu gwybodaeth am storïau am y byd a dibyniaeth pobl ar y Ddaear a gwybod beth yw arwyddocâd elfennau naturiol i grefydd.
- Datblygu gallu pob disgybl i werthuso ac ymateb i grefydd ac i brofiadau bywyd.
- Datblygu'r gallu i godi cwestiynau ysbrydol/crefyddol a'u trafod.
- Sicrhau fod gan ddisgyblion ym mhob dosbarth wybodaeth am ystod eang o storïau Iesu Grist.

**CA2**

- Ehangu gwybodaeth pob disgybl am darddiad llyfrau sanctaidd.
- Ehangu ymwybyddiaeth disgyblion o atebion i rai cwestiynau mawr bywyd ac o'r ffaith fod rhai profiadau yn arwain at godi cwestiynau ac atebion.
- Datblygu gwybodaeth o bwysigrwydd mannau pererindodau.
- Datblygu gwybodaeth am ac ystod ehangach o sylfaenwyr crefyddol y tu hwnt i`w milltir sgwâr
- Datblygu gallu disgyblion i ffurfio eu syniadau a'u credoau eu hunain am fywyd a chrefydd a chyflwyno'r ymatebion personol hyn mewn ffyrdd gwahanol.
- Datblygu gallu disgyblion i chwilio am ystyr a phwrpas trwy ehangu'r ddarpariaeth sydd yn rhoi cyfleoedd i ymateb i grefydd a phrofiadau bywyd.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?**

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Addysg Grefyddol yn gyffredinol dda ar draws yr ysgol a chadarnheir hyn gan adroddiadau monitro gwersi a llyfrau disgyblion.
- Mae portffolio pynciol (CA2) a phortffolio Cyfnod Sylfaen yn dangos ystod eang ac amrywiol o weithgareddau/gwaith plant yn y maes.
- Caiff enghreifftiau o waith plant eu cymedroli mewn cyfarfodydd staff ysgol gyfan ac mae hyn yn cyfrannu at ddealltwriaeth da o ofynion y maes.
- Mae`r athrawon yn cynllunio`n bwrpasol ar gyfer y pwnc yn dymhorol a chaiff y pwnc ei addysgu yn thematig o fewn thema`r dosbarth. Mae cynllun dwy flynedd yr ysgol yn dangos bod gofynion ystod y pwnc yn cael eu cwrdd yn llawn.
- Dengys adroddiad diweddar Estyn (Ionawr 2013) ar Ysgol Bethel fod safon yr addysgu yn dda ac mae hyn yn cyfrannu at safonau uchel mewn Addysg Grefyddol.
- Rhoddir sylw da i ddatblygu sgiliau, gan gynnwys sgiliau meddwl wrth astudio'r pwnc a rho hyn sail gadarn i ddisgyblion ar gyfer delio yn effeithiol gyda materion yn eu bywyd bob dydd.
- Mae'r amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau cymdeithasol / allgyrsiol a gynigir i ddisgyblion yn cyfrannu yn effeithiol iawn at ddatblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion.
- Ceir cyfleoedd i astudio crefyddau eraill ym mhob dosbarth. Mae hyn yn arwain at ddealltwriaeth da o wahanol ffyrdd o fyw a pharch at wahaniaethau.

**Materion i gael sylw**

- Cysoni cyfranogiad y disgyblion wrth gynllunio ar draws CA2. Mae strategaeth gyffredin wedi ei chytuno arni ar gyfer Medi 2013.
- Hyfforddiant i`r cydlynydd er mwyn symud y pwnc ymlaen ymhellach
- Datblygu ymhellach yr elfen ymchwiliol mewn Addysg Grefyddol.
- Yn y Cyfnod Sylfaen, rhaid datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer rhoi sylw pellach i werthuso ac ymateb i grefydd ac i brofiadau bywyd drwy godi cwestiynau ysbrydol/crefyddol a`u trafod.
- Sicrhau cyfleoedd i`r plant fyfyrio ar eu persbectifau eu hunain ar fywyd CA2

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Addoli ar y Cyd**

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy √** | **Nac ydy** |

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Mae addoli ar y cyd yn yr ysgol hon yn dda iawn ac mae naws arbennig iddynt sydd yn creu awyrgylch ysbrydol.
- Mae Ysgol Bethel yn ateb y gofynion cyfreithiol ar gyfer addoli ar y cyd yn llawn drwy ddarparu addoli ar y cyd dyddiol i bob disgybl cofrestredig a thrwy ddilyn y patrwm addoli Cristnogol.
- Mae addoli ar y cyd yn yr ysgol yn argymhellion a geir yn *"Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol" ( myfyrio, gweddi, cân a darlleniad )*
- Mae *Polisi Gwasanaethau Boreol* yn weithredol yn yr ysgol. Mae canllawiau pendant ynglŷn â chyd-addoli yn yr ysgol i`w cael yn y polisi ac mae`r ysgol yn glynu yn dynn wrth y gofynion hyn er mwyn sicrhau parhad yn natblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.
- Mae gwasanaethau cyfrannu tuag at, ac yn cyfoethogi ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer iechyd a lles disgyblion, sydd eisoes yn gryfder yn yr ysgol.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol y disgyblion yn dda iawn. Mae naws cefnogol i'r gwasanaethau, gyda'r plant yn cyfrannu'n effeithiol trwy gynnal gwasanaethau dosbarth o flaen yr ysgol gyfan yn wythnosol.
- Ymdrinnir â moesoldeb mewn modd sydd yn berthnasol i'r plant.
- Bydd arweinwyr crefyddol lleol yn arwain gwasanaethau yn rheolaidd ac mae'r cydweithio effeithiol gyda'r gweinidog a'r gweithiwr ieuenctid capeli lleol (Cynllun EFe) wedi arwain at ddealltwriaeth dda iawn gan y disgyblion o arferion a storïau Cristnogol.
- Caiff disgyblion amrywiol gyfleoedd i fyfyrio, holi a rhyfeddu ac i ddeall eu hunain ac eraill yn well ac maent yn aeddfed iawn yn eu gallu i uniaethu ag eraill.
- Cynhwysir rhieni, Llywodraethwyr ac aelodau o'r gymuned leol yn rheolaidd yn ein gwasanaethau

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Cyfleoedd i`r disgyblion gael "munud i feddwl" o fewn gwasanaethau ysgol.

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: *Nia Guillemin* (Pennaeth) Dyddiad: 20.04.13